Oes gennych chi ddiddordeb mewn treth? Dyma gyfle i fod ymysg y cyntaf i eistedd yn y Siambr Dreth Haen Gyntaf newydd

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn gwahodd ceisiadau i ymuno â'r Siambr Dreth Haen Gyntaf sydd newydd gael ei chreu. Am y tro cyntaf, bydd un awdurdodaeth yn gwrando'r amrediad llawn o achosion treth uniongyrchol ac anuniongyrchol ledled y DU. Bydd y gwaith yn amrywiol a bydd angen ei drin yn sensitif. Bydd yn amrywio o'r syml i'r cymhleth, gan effeithio ar drethdalwyr unigol ac ar gwmnïau amlwladol mawr. Bydd y mathau o achosion a wrandewir yn amrywio o faterion sy'n ymwneud â Hunanasesu Treth Incwm i Dreth Refeniw Petrolewm a Threth Stamp; ac o ordaliadau diffyg talu TAW i Dreth Premiwm Yswiriant a'r Ardoll Newid yn yr Hinsawdd.

Dyma'r swyddi sydd gennym:

Barnwyr Cyflogedig
Swyddi Gwag: 4
Lleoliad: Birmingham, Llundain a Chaeredin.
Mae pob un o'r pedair swydd hyn yn addas ar gyfer gweithio rhan amser 80%
Cyflog: Mae'r cyflogau ar gyfer strwythyr newydd y tribiwnlysoedd yn cael eu hystyried gan Fwrdd Adolygu Cyflogau Uwch a'r disgwyl yw y bydd lefelau'r cyflog yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref. Bydd y cyflog yn £101,400 o leiaf (gyda llwythiad ar gyfer Llundain o £4000 pan yn briodol). Bydd yr adologyiad yn cymryd i ystyriaeth yr holl ystod o gyfrifoldebau'r swyddi hyn.
Rhif Cyfeirnod: 00382

Barnwr Tribiwnlys sy'n Derbyn Ffi
Swyddi Gwag: 14
Lleoliad: Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.
Rhif Cyfeirnod: 00385

Aelod Arbenigol sy'n Derbyn Ffi
Swyddi Gwag: 75
Lleoliad: Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.
Rhif Cyfeirnod: 00384

Mae'r rhain yn gyfleoedd cyffrous i gymryd rôl farnwrol amser llawn neu ran amser, neu'n llai aml gan dderbyn ffi. Bydd y rolau'n weddus i bobl o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys cyfreithwyr treth, gweithwyr proffesiynol ym maes treth uniongyrchol ac anuniongyrchol, cyfrifwyr, pobl sy'n delio ag apeliadau treth ar hyn o bryd a dynion a menywod busnes.

I gael ffurflenni cais a phecynnau gwybodaeth, sy'n cynnwys y meini prawf cymhwysedd llawn ar gyfer y swyddi hyn, ewch i'n gwefan www.judicialappointments.gov.uk neu anfonwch e-bost atom yn jaas@jac.gsi.gov.uk neu ffoniwch ni ar 020 7210 0123.

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 21 Gorffennaf 2008